Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Canllaw homestay i fyfyrwyr

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cymryd eich diogelwch, eich lles a'ch hapusrwydd o ddifri mawr. Yn ystod eich astudiaethau, rydym yn lleoli ein holl fyfyrwyr 16-18 oed gydag un o'n teuluoedd croesawu cymeradwy sydd wedi'u dewis yn ofalus.

### Beth yw homestay?

Mae llety Homestay yn rhoi modd i chi deimlo eich bod yn rhan o deulu a bydd yn eich helpu i integreiddio i fywyd yn y Deyrnas Unedig (DU). Bydd byw gydag un o'n teuluoedd Homestay yn eich helpu i wella'ch Saesneg a phrofi diwylliant Prydain mewn amgylchedd cysurus.

### Beth mae homestay yn ei gynnwys?

Bydd gennych eich ystafell wely eich hun, gyda lle storio, lle astudio a Wi-Fi a darperir brecwast a phrydau bwyd gyda'r hwyr bob dydd. Bydd eich teulu croesawu yn rhoi eich allwedd eich hun i chi i'r tŷ. Bydd eich teulu Homestay yn golchi'ch dillad a chewch ddillad gwely a thywelion glân bob wythnos.

### Pwy sy'n darparu homestay?

Gallai'r teulu Homestay fod yn gwpl neu yn unigolyn; mae plant gan rai ohonynt ac mae anifeiliaid anwes gan rai hefyd. Mae proffil gan bob teulu fydd yn cynnwys manylion eu proffesiwn, eu teulu, eu diddordebau a'r lleoliad. Bydd y proffil yn cael ei anfon atoch a byddwn yn anfon eich ffurflen gais at y teulu. Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth amdanoch chi ar y ffurflen i'n helpu yn y broses baru. Pan gewch eich lleoli mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch teulu croesawu cyn dechrau'r tymor.

Mae nifer o'n teuluoedd croesawu yn brofiadol iawn ac wedi mwynhau rhannu eu tai â myfyrwyr o bedwar ban byd ac fel arfer maen nhw'n cadw mewn cysylltiad â'i gilydd am flynyddoedd lawer. Mae teuluoedd croesawu yn gyswllt hanfodol rhyngoch chi, y Coleg a'ch teulu gartref a byddan nhw'n eich cynorthwyo i gael annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen ar gyfer bywyd yn y Coleg a'r brifysgol yn y DU.

Ar ôl ymgartrefu byddwch chi a'ch teulu croesawu yn mynd trwy Ffurflen Gytundeb Homestay, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r teulu a'r Coleg a'ch rolau a'ch cyfrifoldebau chi a gaiff ei llofnodi gan bob parti. Mae'r rhain yn bwysig i bawb wrth i chi ymgartrefu yn eich amgylchedd newydd.

## Lles, iechyd a chymorth

Pan gyrhaeddwch yn y Coleg bydd y Swyddfa Ryngwladol yn rhoi llythyr i chi ynghylch cofrestru gyda meddyg. Os byddwch yn teimlo'n dost yn y Coleg, mae gennym Ymgynghorydd Iechyd Myfywyr ar y campws yn ogystal â swyddogion cymorth cyntaf yn y Swyddfa Ryngwladol.

Mae'r Tîm Rhyngwladol bob amser ar gael i'ch helpu gydag unrhyw broblem sy'n eich pryderu, p'un ai yw'n ymwneud â Homestay, astudiaethau, salwch neu faterion cyffredinol o ddydd i ddydd. Eich diogelwch, eich llwyddiant academaidd a'ch hapusrwydd yw ein blaenoriaeth.

## Dyma rai sylwadau gan ein teuluoedd croesawu:

"Mae bod yn deulu croesawu yn brofiad gwerth chweil. Mae'n braf cael cyfle i roi cartref i bobl ifanc o wledydd tramor sydd efallai i ffwrdd o'u cartref am y tro cyntaf". Sue Morris

"Dyn ni'n hoffi darparu amgylchedd "cartref o'r cartref" a sicrhau bod ein gwestai Homestay yn teimlo'n rhan o'n teulu yn ystod eu harhosiad. Dyn ni'n mwynhau dysgu am eu gwlad a'u diwylliant wrth drosglwyddo ein gwybodaeth a'n profiad ni o'r DU ac yn enwedig Cymru", Sue Dinnage

## Cysylltiadau defnyddiol:

Coleg Gŵyr Abertawe

Swyddfa Ryngwladol: 01792 284 007

Swyddfa Ryngwladol (y tu allan i oriau / materion brys): 07463 69995